

# Diweddariad gan yr Asiantaeth Safonau Bwyd ar Russell Hume

Daeth y pryderon hyn i'r amlwg o ganlyniad i archwiliad dirybudd ar un safle a arweiniodd at ymchwiliad ehangach yn y dyddiau canlynol ar draws eu holl ffatrioedd ac i gynhyrchion mewn storfeydd oer.

Yn seiliedig ar y dystiolaeth a gasglwyd, roeddem yn bryderus bod problem fwy systematig a chyffredin a oedd yn fwy difrifol o ran ei raddfa a'i natur. Dim ond ar y cam hwn y cafodd y materion o ddiffyg cydymffurfio difrifol eu canfod. Roedd y rhain yn ymwneud â nifer o faterion gan gynnwys pryderon am weithdrefnau a phrosesau yn ymwneud â dyddiadau 'defnyddio erbyn' (*use by*). Nid oes unrhyw beth i awgrymu bod pobl wedi mynd yn sâl ar ôl bwyta cig a gyflenwyd gan Russell Hume.

Mae ein hymchwiliad yn defnyddio dull cymesur yn seiliedig ar y canfyddiadau. Rydym ni'n gweithio mewn partneriaeth â Safonau Bwyd yr Alban i wneud hyn. Ni allwn ddarparu rhagor o fanylion a allai beryglu unrhyw gamau gorfodi yn y dyfodol.

O ganlyniad i'r ymchwiliadau pellach hyn, a oedd yn tynnu sylw at broblemau diffyg cydymffurfio difrifol, rydym wedi gorfodi Russell Hume i roi'r gorau i gynhyrchu yn y ffatrioedd a dal yr holl gynhyrchion yn ôl. Yna, fe gydweithion ni â'r cwmni er mwyn iddynt allu dechrau galw'r holl gynhyrchion dan sylw yn ôl. Hyd nes y gall y busnes ddarparu sicrwydd ei fod yn cydymffurfio â'r ddeddfwriaeth berthnasol a'i fod yn cynhyrchu bwyd diogel, ni all unrhyw gig adael ei safleoedd.

Meddai Jason Feeney, Prif Swyddog Gweithredol yr Asiantaeth Safonau Bwyd:

'Nid ydym yn gwneud unrhyw benderfyniadau i atal cynhyrchu a galw a thynnu cynhyrchion yn ôl yn ysgafn. Ein gwaith ni yw sicrhau bod bwyd a gynhyrchir gan fusnes yn ddiogel, ac yn amlwg mae'n rhaid i ni fabwysiadu dull cymesur.

Rydym yn cydnabod effaith bosibl ein penderfyniadau ar fusnesau a bywoliaeth unigolion. Yn achos Russell Hume, roedd ein harchwiliad dirybudd ein hunain mewn un safle yn peri pryder i ni am achosion o ddiffyg cydymffurfio â rheoliadau hylendid bwyd. Ni ddigwyddodd yn sgil unrhyw adroddiadau am salwch.

"Rydym wedi edrych ar draws y busnes hwn ledled y Deyrnas Unedig a dod i'r casgliad bod yr achos o ddiffyg cydymffurfio yn ddifrifol ac yn ddigon eang i gynghori i roi'r gorau i unrhyw gynhyrchu yn ffatrioedd Russell Hume a dechrau tynnu cynhyrchion yn ôl. Fe gydweithion ni â'r cwmni i wneud hyn mor gyflym ac effeithiol â phosibl, ac mae ein gweithredoedd wedi bod yn gymesur yn seiliedig ar y dystiolaeth sydd ar gael i ni.

"Wrth gwrs, iechyd y cyhoedd yw ein prif flaenoriaeth o hyd, ac nid oes unrhyw arwydd yn unrhyw ran o'r broses bod pobl wedi mynd yn sâl yn sgil bwyta cig a gyflenwir gan Russell Hume. Mae hyn yn dal i fod yn wir ac rydym yn parhau i asesu'r sefyllfa, gan weithio gyda'r cyrff iechyd cyhoeddus perthnasol.

Gan nad yw'r cwmni wedi gallu dangos bod ganddo system reoli ddigon cadarn ar

waith, mae'n hollol gywir ein bod wedi cymryd y camau priodol hyn.'